## Gwybodaeth am ein gwasanaeth

Mae **Gwasanaeth Sbectrwm Awtistig Caerffili (CASS)** yn rhan o Ysgol a Chanolfan Adnoddau Cae'r Drindod.

Mae'r tîm wedi'i ddatblygu i helpu plant a phobl ifanc sydd â diagnosis o Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistiaeth (ASD).

Mae'r gwasanaeth yn darparu cymorth a chyngor i rieni, teuluoedd a staff ysgol sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc **(CYP)** hyd at 18 oed sydd wedi cael diagnosis o Awtistiaeth.

### Mae cymorth yn cael ei gyfeirio at:

- Rhieni a/neu ofalwyr
- Plant a phobl ifanc sydd wedi cael diagnosis o Awtistiaeth
- Aelodau o'r teulu
- Cydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol
- Athrawon
- Staff Cymorth Dysgu a gweithwyr proffesiynol eraill sy'n gweithio gyda CYP

**Gall staff yr ysgol neu weithwyr proffesiynol cynorthwyol ym maes iechyd neu wasanaethau cymdeithasol wneud atgyfeiriadau.**

## Atgyfeiriadau

Mae atgyfeiriadau yn cael eu gwneud drwy lenwi ffurflen atgyfeirio CASS a'i hanfon yn uniongyrchol at CASS yn cass@sch.caerphilly.gov.uk
Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch chi, cysylltwch â thîm Ysgol a Chanolfan Adnoddau Cae'r Drindod ar naill ai cass@sch.caerphilly.gov.uk neu **01443 866000**

## Amrywiaeth o gymorth CASS

Gall pobl ifanc 2-18 oed a'u teuluoedd gael eu **hatgyfeirio** at CASS gan weithiwr proffesiynol cynorthwyol ar gyfer y gwasanaethau cymorth canlynol.

### Cymorth yn yr ysgol

Mae cymorth yn yr ysgol ar gael gan CASS i rymuso ysgolion i ddiwallu anghenion dysgwyr Awtistig. Gall y cymorth hwn gynnwys modelu arfer da, cyngor, paratoi neu fenthyca adnoddau a hyfforddiant staff.

**** Nid yw CASS yn ymwneud â dyrannu oriau cymorth ychwanegol neu leoliadau ysgol ****

### Cymorth yn y cartref

Lle bynnag y bo modd, rydyn ni'n argymell bod teuluoedd yn cymryd rhan mewn un o'r rhaglenni hyfforddi sydd ar gael yn y lle cyntaf. Wedyn, mae teuluoedd yn gallu cael eu hatgyfeirio at y gwasanaeth am gyfnod byr, wedi'i dargedu o gymorth ar ôl hyfforddiant os oes angen o hyd. Gall cymorth gynnwys cyngor, strategaethau cyfeirio, rhannu adnoddau atgyfeirio i wasanaethau priodol eraill.

**Mae ffurflenni atgyfeirio ar gael drwy anfon e-bost at fewnflwch CASS yn** cass@sch.caerphilly.gov.uk

**Sganiwch y cod QR i gwblhau ffurflen mynegi diddordeb.**

## Rhaglenni Hyfforddi

Mae teuluoedd pobl ifanc yn gallu cael eu hatgyfeirio at CASS ar gyfer y rhaglenni hyfforddi canlynol.

**Rhaglen 'Early Bird' Cymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth (NAS) –** 6 wythnos o hyfforddiant wyneb yn wyneb ar gyfer rhieni/gofalwyr sydd â phlentyn sydd wedi cael diagnosis o ASD rhwng 0 a 6 oed.

**Rhaglen 'Early Bird Plus' NAS –** 6 wythnos o hyfforddiant a chymorth ar gyfer rhieni/gofalwyr sydd â phlentyn sydd wedi cael diagnosis o ASD rhwng 5 a 10 oed. Os yw'r plentyn yn yr ysgol, gall aelod o staff yr ysgol hefyd fynychu'r hyfforddiant gyda rhieni.

**Rhaglen 'Teen Life' NAS –** Mae Teen Life yn rhaglen 6 sesiwn NAS ar gyfer rhieni/gofalwyr pobl ifanc 10-16 oed. Nod rhaglen Teen Life yw dod â rhieni at ei gilydd i rannu gwybodaeth, profiadau a syniadau mewn ffordd strwythuredig.

**'Cygnet' Barnardo's –** Rhaglen cymorth Awtistiaeth 6 wythnos ar gyfer teuluoedd/gofalwyr plant sydd â diagnosis o Awtistiaeth. Nod y rhaglen hon yw cynyddu dealltwriaeth rhieni drwy strategaethau ymarferol maen nhw'n gallu eu defnyddio gyda'u plentyn.

**'Understanding Me' –** Ymyrraeth grŵp ar gyfer pobl ifanc sydd ag Awtistiaeth gyda'r nod o archwilio beth mae awtistiaeth yn ei olygu iddyn nhw. Fel arfer, mae'n addas ar gyfer plant 11 oed a hŷn ac yn cael ei redeg mewn lleoliad cynhwysfawr.

**Gall Cydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol atgyfeirio grwpiau o bobl ifanc sydd wedi cael diagnosis i CASS ar gyfer Understanding Me yn unig. Cysylltwch â CASS am ragor o wybodaeth neu am ffurflen atgyfeirio.**

## Niwrowahaniaeth Cymru

Mae tîm CASS yn argymell bod pob ysgol/lleoliad gwasanaeth yn cwblhau'r cynllun Tystysgrif Ymwybyddiaeth Awtistiaeth. Mae adnoddau a gwybodaeth am bob grŵp oedran ar gael ar y wefan. Gall ysgolion a theuluoedd hefyd gael mynediad at yr wefan hon i gael gwybodaeth, adnoddau, fideos hyfforddi a mwy.
[Hafan - Niwrowahaniaeth Cymru | Neurodivergence Wales | National Neurodivergence Team]

### Hyfforddiant i Ysgolion a Gweithwyr Proffesiynol Eraill

Ar hyn o bryd, mae CASS yn cynnig pecynnau hyfforddi fel rhan o hyfforddiant ysgol gyfan/lleoliad neu ar gyfer grwpiau llai o weithwyr proffesiynol.

**Mae rhai o'r pecynnau hyfforddi yn cynnwys:**

- Cyflwyniad i Awtistiaeth
- Strategaethau a dulliau dosbarth cyffredinol
- Awtistiaeth a masgio, cyflwyniad mewnol
- Awtistiaeth a merched
- Deall a chynorthwyo gydag ymddygiadau sy'n peri pryder
- Deall a chwrdd ag anghenion synhwyraidd

Yn ogystal â'r hyfforddiant uchod, gallwn ni hefyd ddyfeisio hyfforddiant pwrpasol i ddiwallu anghenion eich lleoliad unigol neu dîm o staff.

**Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â CASS.**

## Atgyfeirio CASS – Gyda phwy rydyn ni'n gweithio?

### Preswylio

I gael cymorth CASS, rhaid i deulu'r person ifanc fod yn **breswylydd ym Mwrdeistref Sirol Caerffili**. Bydd CASS yn darparu cymorth yn yr ysgol i berson ifanc sy'n cael ei addysgu yn un o ysgolion y Bwrdeistref Sirol ond sy'n byw y tu allan i'r Awdurdod.

### Diagnosis

Rhaid rhoi gwybod i'r Cyngor am ddiagnosis pob plentyn/person ifanc o **Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistiaeth** er mwyn iddyn nhw gael mynediad at y gwasanaeth.
**Oherwydd y galw eithriadol o uchel am gymorth ac oherwydd y capasiti o fewn y tîm, gall CASS ddarparu gwasanaethau dim ond i ysgolion a theuluoedd plant a phobl ifanc sydd â diagnosis o Awtistiaeth wedi'i gadarnhau.**

### Ymyrraeth CASS

**Mae plant a phobl ifanc yn gallu cael eu hatgyfeirio at CASS am y rhesymau canlynol:**

- Cyngor o fewn y lleoliad addysg
- Deall ymddygiadau sy'n peri pryder
- Cyrsiau hyfforddi
- Cyngor a chymorth pontio.
- Datblygu arferion priodol
- Rhoi adnoddau a strategaethau addas ar waith
- Cyfeirio a chyngor cyffredinol.

## Padlet CASS: Gwasanaethau sydd ar gael i deuluoedd

Mae gan Padlet CASS wybodaeth fel gwefannau defnyddiol, grwpiau lleol, gwasanaethau a gweithgareddau sydd ar gael i deuluoedd.

[Gwasanaeth Sbectrwm Awtistig Caerffili (padlet.com)]

### Sut y byddwn ni'n defnyddio eich gwybodaeth

Bydd **Gwasanaeth Sbectrwm Awtistiaeth Caerffili (CASS)** yn prosesu atgyfeiriadau am gymorth/gyngor naill ai drwy hyfforddiant, cymorth yn y cartref, cymorth yn yr ysgol neu gymorth cyfathrebu.
Byddwn ni'n coladu'r wybodaeth sy'n berthnasol i'ch cais chi fel tystiolaeth o'ch hunaniaeth a'ch manylion cyswllt at ddibenion darparu ymatebion a gohebiaeth i chi. Bydd cyfranogiad gan CASS yn cynnwys coladu/rhannu gwybodaeth gyda meysydd gwasanaeth eraill o fewn Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili a sefydliadau eraill megis ysgolion/sefydliadau addysgol perthnasol, byrddau iechyd, Gyrfa Cymru, Llywodraeth Cymru, Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru, SNAP Cymru ac awdurdodau lleol eraill. Bydd eich gwybodaeth yn cael ei chadw am 31 mlynedd o ddyddiad geni eich plentyn.

Mae gennych chi nifer o hawliau mewn perthynas â'ch gwybodaeth, gan gynnwys yr hawl i gael gafael ar wybodaeth sydd gennym ni amdanoch chi a'r hawl i gwyno os ydych chi'n anhapus â'r ffordd rydyn ni wedi ymdrin â'ch cais neu eich gwybodaeth chi.

I gael rhagor o wybodaeth am sut rydyn ni'n prosesu'ch gwybodaeth ac am eich hawliau chi, cliciwch ar y ddolen ganlynol:

https://trinityfieldsschoolandresourcecentre.co.uk/media/d3zgrw4j/privacy-notice-cass-2022-final.pdf